

Trefniadau ar gyfer cymwysterau Tystysgrifau Lefel Mynediad, Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol, Lefel 1 a Lefel 2 Tystysgrifau mewn Lladin, Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol, Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol, Iaith ar Waith, Iaith Gwaith a Llwybrau Ieithoedd

Diweddariad i Ganolfannau – 04.06.2020

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am ofnyon y cymwysterau uchod yn haf 2020. Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ar 21 Mai 2020. Amlygir mewn melyn unrhyw newidiadau ac ychwanegiadau i'r fersiwn hwn.

Mae'r ysgolion a'r colegau'n wynebu llawer o amharu ac anawsterau yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn. Bwriad y diweddariad hwn yw darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Mewn rhai meysydd, fodd bynnag, nid oes gwybodaeth fanwl ar gael ar hyn o bryd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach wedi'i diweddarau ag ysgolion a cholegau cyn gynted â phosibl

- [Cadarnhau trefniadau dyfarnu cymwysterau galwedigaethol ar gyfer Haf 2020](#)
- [Pennu graddau asesu canolfannau a threfnau rhestrol](#)
- [Cyflwyno graddau a threfnau rhestrol](#)
- [Llofnodi Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol yn derfynol](#)
- [Ymgeiswyr Preifat](#)
- [Trefniadau Consortiwm](#)
- [Trefniadau i ddysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster](#)
 - [Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol](#)
 - [Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol](#)
- [Gwrthdaro Buddiannau](#)
- [Cofrestriadau](#)
 - [Cofrestriadau unedau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol](#)
- [Camymddwyn](#)
- [Safoni](#)
- [Diwrnodau canlyniadau](#)
- [Dyddiadau Allweddol](#)
- [Cysylltau defnyddiol](#)

Cadarnhau trefniadau dyfarnu cymwysterau galwedigaethol ar gyfer Haf 2020

Defnyddir graddau asesu canolfannau yn unol â disgygliadau'r llywodraeth a'r rheoleiddwyr i ddyfarnu'r cymwysterau galwedigaethol canlynol yr haf hwn:

- Tystysgrifau Lefel Mynediad
- Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol
- Lefel 1 a Lefel 2 Tystysgrifau mewn Lladin
- Lefel 2 Tystysgrif mewn Mathemateg Ychwanegol
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol
- Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio*
- Llwybrau Iaith ar Waith ac Iaith Gwaith*

* Rank ordering is not required for these qualifications

- Unedau leithoedd*

Mae graddau asesu canolfannau'n seiliedig ar yr hyn y byddai athrawon yn disgwyl i bob dysgwr ei gyflawni i bob cymhwyster. Mae angen i'r graddau hyn gynrychioli barn yr athro sy'n deg, yn rhesymol ac wedi'i hystyried yn ofalus o ran y radd y byddai'r ymgeisydd yn fwyaf tebygol o'i hennill dan amgylchiadau arferol.

Gofynnwyd i athrawon ddarparu gradd asesu canolfannau i bob dysgwr ar **lefel y cymhwyster**¹ ynghyd â threfn restrol o ddysgwyr ar bob gradd.

Pennu graddau asesu canolfannau a threfnau rhestrol

Mae ein harbenigwyr pwnc wedi creu canllawiau i gefnogi a chynorthwyo athrawon wrth iddynt bennu graddau asesu canolfannau a threfnau rhestrol ar gyfer haf 2020. Lluniwyd canllawiau gennym i bob cymhwyster y mae angen gradd asesu canolfannau ar ei gyfer. Gellir gweld y canllawiau hyn ar ein gwefan ddiogel: [Adnoddau > Cylchlythyrau > Canllawiau GAC Haf 2020](#).

Efallai y bydd angen i athrawon gael mynediad at ganlyniadau dysgwyr o gyfresi blaenorol. Oherwydd hynny rydym wedi llwytho canllawiau ychwanegol i fyny o ran sut i gael gafael ar y wybodaeth hon o'r wefan ddiogel. A fydddech cystal â rhoi gwybod i'ch athrawon bod y canllawiau hyn ar gael.

Cyflwyno graddau a threfnau rhestrol

Mae cyfleuster newydd ar gael ar ein gwefan ddiogel i'w ddefnyddio i gyflawni'r gwaith o gyflwyno graddau a threfnau rhestrol. Mae'r cyfleuster hwn wedi bod ar gael o dan y tab 'Canlyniadau' o 1 Mehefin². Bydd cofrestrïadau canolfannau wedi'u cynnwys yn barod yn y system. Cyhoeddwyd arweiniad manwl i'r canolfannau o ran sut i fewnbynnu graddau asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol.

Gosodwyd y system hon er mwyn i ddeiliaid pob prif gyfrif (y Swyddog Arholiadau fel arfer) a deiliaid cyfrifon eilaidd gael mynediad ati.

Dylai Swyddogion Arholiadau wneud hyn:

- cadarnhau eich mynediad at ein gwefan ddiogel (www.wjecservices.co.uk) ac adolygu'r cyfrifon eilaidd sy'n bodoli yn eich canolfan ar hyn o bryd.
- dileu unrhyw gyfrifon anweithredol ar gyfer staff sydd wedi gadael y ganolfan.
- tynnu'r mynediad at y cyfleuster hwn oddi wrth unrhyw ddeiliaid cyfrifon eilaidd nad oes gofyn iddynt fewnbynnu'r wybodaeth hon drwy osod 'data asesu athrawon' i na.
- sicrhau bod cyfrifon gwefan ddiogel gan bob un o'r staff yn eich canolfan y bydd gofyn iddynt fewnbynnu graddau a gwybodaeth am drefn restrol.
- sicrhau bod cyfrif gwefan ddiogel gan Bennaeth eich Canolfan. Bydd gofyn i Bennaeth y Ganolfan gwblhau ei ddatganiad ar y wefan ddiogel.

Gallwch ddefnyddio'r drefn arferol i reoli'r caniatâd i ddeiliaid cyfrifon eilaidd gan ddefnyddio'r botwm 'Gweinyddu Cyfrif' ar yr hafan.

Noder

¹Gellir cyflwyno Graddau Asesu Canolfannau ar gyfer ein cymwysterau laith ar Waith ar gyfer y cymhwyster cyfan neu ar gyfer unedau unigol os nad yw'r ymgeisydd yn bwriadu cwblhau'r cymhwyster llawn.

²Ein System Mewnbynnu Marcïau Asesiad Mewnol (IAMIS) fydd yn cael ei defnyddio i gasglu ein Graddau Asesu Canolfannau ar gyfer ein Diploma Sylfaen Celf a Dylunio

- os nad oes cofrestrriad cyfnewid ni fydd yr ymgeiswyr i'w gweld ar y system/dull cyflwyno graddau asesu canolfannau.
- rhaid cofrestru ymgeiswyr am yr unedau priodol a 'chfynewid'. Dylid cyfeirio at [Trefniadau i ddysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster am wybodaeth yn ymwneud â dysgwyr â chofrestrriadau unedau'r haf hwn.](#)
- oherwydd yr amgylchiadau eithriadol sy'n perthyn i ddyfarniad graddau'r haf hwn, rydym yn monitro pob cofrestrriad a wnaed ar ôl 18 Mawrth er mwyn sicrhau mai dim ond yr ymgeiswyr hynny ddylai fod yn ardystio eleni sydd wedi'u cofrestru ac y byddant yn derbyn gradd am y cymhwyster. Mae'n bwysig sicrhau tegwch a hyder yn y system eleni. Caiff ymchwiliad camymddwyn ei gynnal i unrhyw achosion lle cofrestrwyd ymgeiswyr nad oeddent i fod i'w hardystio'r haf hwn.
- ni fydd unrhyw ymgeisydd na chafodd ei gofrestru erbyn **26 Mai 2020** i'w weld ar y system ar gyfer cyflwyno graddau asesu canolfannau a threfn restrol. Pan fydd eich canolfan yn cyflwyno'r graddau asesu canolfannau/gwybodaeth am drefn restrol, os ydych yn sylwi na chafodd ymgeisydd ei gofrestru, cysylltwch â cofrestrriadau@cbac.co.uk ar unwaith.
- ni ellir gwneud unrhyw newidiadau unwaith y bydd Pennaeth y Ganolfan wedi llofnodi'r datganiad, waeth beth yw'r amgylchiadau
- ni dderbynnir unrhyw gofrestrriadau 'cyfnewid' hwyr ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau oherwydd yr amgylchiadau eithriadol o ran dyfarnu graddau'r haf hwn.

Llofnodi Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol yn derfynol

Rhaid i ddau o athrawon y pwnc a Phennaeth y Ganolfan lofnodi pob gradd a threfn restrol cyn eu cyflwyno:

- rhaid i ddau o athrawon y pwnc, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Bennaeth yr Adran, lofnodi'r Graddau Asesu Canolfannau a'r drefn restrol (neu os oes dim ond un athro ar gael, y Pennaeth Adran)
- rhaid i Bennaeth y Ganolfan lofnodi'r radd asesu canolfannau a'r drefn restrol, gan ddatgan bod y wybodaeth yn gywir ac yn cyfleu perfformiad yr ymgeiswyr yn gywir (gall Pennaeth y Ganolfan ddirprwyo'r dasg hon i ddirprwy os nad yw ar gael).

Mae cyfnod o dair wythnos ar gael i ganolfannau i fewnbynnu a chyflwyno graddau asesu canolfannau, o **1 i 19 Mehefin 2020**.

Anfonwyd canllaw cam wrth gam o ran sut i fewnbynnu a chyflwyno marciau i'r canolfannau.

Ymgeiswyr Preifat

Rydym wedi cynnwys gwybodaeth i ganolfannau ag ymgeiswyr preifat ar ein gwefan:

<https://www.wjec.co.uk/articles/coronavirus-update-private-candidates/>

Trefniadau Consortiwm

Ni fydd trefniadau consortiwm ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau cyffredinol ar gael yn Haf 2020.

Trefniadau i ddysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster

Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol

Cyhoeddir gradd i unrhyw ddysgwyr a gofrestrwyd am unedau ac a ddylai fod yn cwblhau eu cymhwyster yr haf hwn dan y trefniadau a amlinellir uchod. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ym Mlwyddyn 12 a gofrestrwyd am gymhwyster cyfan (cyfnewid).

Dysgwyr a gofrestrwyd am unedau'r haf hwn nad ydynt yn cyfnewid y cymhwyster, er enghraifft, **ni chyhoeddir** canlyniad uned i ddysgwyr ym Mlwyddyn 12 sydd ran o'r ffordd drwy gwrs Diploma Cymhwysol dwy flynedd.

Bydd y trefniadau canlynol ar waith ar gyfer dyfarnu ein cymwysterau Diploma Cymhwysol yn 2021:

Dewis 1: dysgwyr yn sefyll yr unedau Diploma ychwanegol yn haf 2021 a'r radd am y Diploma yn seiliedig ar y rhain yn unig.

Dewis 2: dysgwyr yn sefyll yr unedau Tystysgrif a'r unedau Diploma ychwanegol yn haf 2021 a'r radd am y Diploma yn seiliedig ar eu perfformiad ar draws yr holl unedau.

Ni ellir defnyddio'r radd am y Dystysgrif a gyfrifwyd o haf 2020 wrth lunio'r radd Diploma yn haf 2021. Dim ond gradd sydd ar gael gennym eleni, ni chyhoeddir unrhyw sgorau Graddfa Marciau Unffurf. Nid yw'r radd wedi'i chyfrifo yn rhoi digon o fanylion i CBAC eu defnyddio wrth ddarparu gradd Diploma yn haf 2021. Felly, dewis 1 a dewis 2 yw'r unig ddewisiadau sydd ar gael yng nghyfres haf 2021.

Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol

Cyhoeddir gradd i unrhyw ddysgwyr a gofrestrwyd am unedau ac a ddylai fod yn cwblhau eu cymhwyster yr haf hwn dan y trefniadau a amlinellir uchod. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a gofrestrwyd am gymhwyster cyfan (cyfnewid).

Cyhoeddir graddau hefyd i ddysgwyr a gofrestrwyd am unedau'r haf hwn nad ydynt yn cwblhau'r cymhwyster cyfan, er enghraifft, dysgwyr ym Mlwyddyn 10 sydd ran o'r ffordd drwy gwrs dwy flynedd.

Mae trefniadau terfynol y broses hon yn cael eu gwneud ar hyn o bryd o ran pennu a chyflwyno graddau asesu canolfannau ar gyfer dysgwyr cymwys. Bydd arweiniad pellach ar gael i ganolfannau'n fuan. Gofynnir i ganolfannau gyflwyno graddau asesu canolfannau rhwng 29 Mehefin a 10 Gorffennaf 2020. Bwriadwn gyhoeddi canlyniadau unedau mewn da bryd i lywio penderfyniadau canolfannau ynghylch cofrestru dysgwyr am y gyfres asesu ychwanegol.

Cynghorwyd canolfannau i beidio â thynnu cofrestrïadau ymgeiswyr yn ôl yr haf hwn. Os ydych wedi tynnu unrhyw gofrestrïad yn ôl ar y sail na fyddai graddau unedau'n cael eu dyfarnu, **peidiwch** â chysylltu â'n tîm cofrestrïadau tan y cewch wybod gennym beth yw dyddiad y cyfnod ailgofrestru. **Dim ond cofrestrïadau a wnaed ac a dynnwyd yn ôl yn flaenorol a dderbynnir, ni fydd yn bosibl cyflwyno cofrestrïadau newydd am unedau.**

Gwrthdaro Buddiannau

Cyfrifoldeb Penaethiaid Canolfannau yw rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau posibl o ran cyflwyno Graddau Asesu Canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol. Enghraifft o hyn fyddai achos lle mae aelod o staff y ganolfan yn ymwneud â pharatoi Graddau Asesu Canolfannau ar gyfer aelod o'r teulu. Rhaid i Bennaeth y Ganolfan sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a sut y gweithredwyd i liniaru'r sefyllfa.

Os bydd Pennaeth y Ganolfan yn ymwneud ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl, rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i roi gwybod i ni am hyn cyn cyflwyno.

Cofrestriadau

Dylai canolfannau fod wedi ailedrych ar eu cofrestriadau er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw ymgeiswyr sy'n disgwyl gradd cymhwyster yr haf hwn wedi'u cofrestru. O ran cymwysterau unedol, rhaid cofrestru pob ymgeisydd am yr holl unedau priodol a hefyd am y 'cyfnewid'. Bydd unrhyw ymgeisydd a gofrestrwyd i gyfnewid i'w weld ar y system mewnbynnu graddau asesu canolfannau.

Ac eithrio ein cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol, ni fydd unrhyw ymgeisydd sydd heb gofrestriad 'cyfnewid' am haf 2020 yn derbyn gradd am y cymhwyster. Gofynnwn i chi beidio â thynnu unrhyw gofrestriadau am unedau yn ôl yn achos ymgeiswyr yr haf hwn (e.e. cofrestriadau am unedau ar gyfer ymgeiswyr blwyddyn 10). Mae hyn er mwyn gwneud y broses yn hylaw i ganolfannau ac i ni. Ni chodir ar ganolfannau am gofrestriadau am unedau'r haf hwn gan na fyddwn yn cyhoeddi canlyniadau haf 2020 i'r ymgeiswyr hynny. Hefyd, ni fydd y cofrestriadau hynny'n cyfrif tuag at unrhyw reolau 'dechrau o'r newydd'.

Cofrestriadau unedau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol

Cynghorwyd canolfannau i beidio â thynnu cofrestriadau ymgeiswyr yn ôl yr haf hwn. Os ydych wedi tynnu unrhyw gofrestriad yn ôl ar y sail na fyddai graddau unedau'n cael eu dyfarnu, **peidiwch** â chysylltu â'n tîm cofrestriadau tan y cewch wybod gennym beth yw dyddiad y cyfnod ailgofrestru. **Dim ond cofrestriadau a wnaed ac a dynnwyd yn ôl yn flaenorol a dderbynnir, ni fydd yn bosibl cyflwyno cofrestriadau newydd am unedau.**

Camymddwyn

Gwyddom y bydd mwyafrif helaeth yr ysgolion a'r colegau'n gwneud eu gorau glas i sicrhau eu bod yn cyflwyno Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol sy'n adlewyrchiad cwbl deg a gwirioneddol o'r graddau y byddai ymgeiswyr yn fwyaf tebygol o fod wedi'u cyflawni pe byddent wedi sefyll eu harholiadau'n ôl y bwriad.

Gall fod rhai achosion lle gall ysgolion a cholegau, neu athrawon, fod dan bwysau allanol gan ymgeisydd neu ei riant/gwarcheidwad i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch gradd neu drefn restrol. Os bydd unrhyw bwysau allanol o'r fath yn digwydd rhaid cyflwyno adroddiad i ni am y mater. Gallwn ymchwilio hyn fel achos o gamymddwyn posibl ar ran ymgeisydd.

Hefyd, ni ddylai ysgolion a cholegau gyflwyno canlyniadau maen nhw'n ymwybodol sy'n anghywir na chofrestru unrhyw ymgeisydd nad oedd yn wreiddiol am ardystio yng nghyfres haf 2020.

Safoni

Byddwn ni'n ymgymryd â phroses o safoni. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod graddau'n deg ar draws yr holl ysgolion a cholegau ac yn cyfateb fwy neu lai i rai blynyddoedd blaenorol. Rydym wrthi'n datblygu'r broses hon dan oruchwyliaeth ein rheoleiddwyr sy'n ymgynghori ar y nodau sylfaenol. Caiff pob canolfan ei hystyried yn rhan o'r broses hon gan gynnwys ysgolion a cholegau newydd sydd heb unrhyw ddata cyflawniad blaenorol neu sydd â chofrestriadau bach. Unwaith y bydd Cymwysterau Cymru wedi cymeradwyo a chytuno ar y broses derfynol i'w defnyddio i safoni, byddwn yn rhannu manylion pellach.

Diwrnodau canlyniadau

Yn ôl y bwriad, cyhoeddir y canlyniadau i fyfyrwyr ym mis Awst o 08.00 ar y dyddiau canlynol:

- Dydd Iau 13 Awst ar gyfer Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol a Lefel 3 Diploma Sylfaen Celf a Dylunio
- Dydd Iau 20 Awst ar gyfer Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol, Lefel 1 a Lefel 2 Tystysgrifau mewn Lladin, Lefel 2 Tystysgrif mewn Mathemateg Ychwanegol, Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, Llwybrau Iaith ar Waith ac Iaith Gwaith ac Unedau Ieithoedd

Fel yn y gorffennol, cyhoeddir canlyniadau canolfannau cyfan i Bennaeth y Ganolfan a'r swyddogion arholiadau gennym y diwrnod cyn y dyddiadau hyn. Gall y canolfannau wedyn baratoi'n weinyddol ar gyfer rhyddhau canlyniadau i ddysgwyr. Byddwn yn rhannu data canlyniadau ag UCAS yn ôl yr arfer.

Dyddiadau Allweddol

| | |
|--|---------------------|
| Terfynau amser cyflwyno newidiadau | 26 Mai 2020 |
| Cyfnod cyflwyno graddau asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol | 1 – 19 Mehefin 2020 |
| Gwybodaeth i'w hanfon i ganolfannau am y dull safoni | Canol Mehefin |
| Rhyddhau canlyniadau: Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol | 13 Awst 2020 |
| Rhyddhau canlyniadau: Pob cymhwyster arall | 20 Awst 2020 |
| Rhyddhau canlyniadau: canlyniadau unedau dysgwyr sydd ran o'r ffordd drwy Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol | I'w gadarnhau |
| Terfyn amser cyflwyno apeliadau | I'w gadarnhau |
| Terfyn amser dosbarthu tystysgrifau i ganolfannau | 7 Tachwedd 2020 |

Cysylltau defnyddiol

<https://www.wjec.co.uk/home/supporting-teachers-and-learners-during-coronavirus/vocational-qualifications-faqs/>

[Fframwaith Rheoleiddiol Arbennig Cymwysterau Galwedigaethol - Covid-19 Cymwysterau Cymru](#)